Plant Bethlehem

Thema: Nadolig, gwrthdaro

Gwlad dan sylw: Israel a Thiroedd y Meddiant (Occupied Palestinian Territories)

Nod: meddwl am stori'r Nadolig a dangos pa fath o fywyd sydd gan rai plant yn ardal Bethlehem heddiw.

Adnoddau/paratoadau:

- Bag rhodd Nadolig gydag ychydig o bethau ynddo i gynrychioli sut y bydd llawer o bobl yn treulio'r Ŵyl e.e. anrheg, bwyd Nadoligaidd, llun o deulu neu ffrindiau, Beibl neu lyfr stori'r Nadolig
- Cracer Nadolig
- Cyflwyniad PowerPoint *Plant Bethlehem,* ar gael o www.christianaid.org.uk/learn

Cyflwyniad

Dwedwch wrth y plant eich bod chi'n teimlo'n gyffrous am fod y Nadolig ar gyrraedd. Gofynnwch i'r plant os ydynt yn dathlu'r Nadolig ac os felly, pa fath o bethau y maen nhw'n eu gwneud ar Ddydd Nadolig a beth y maen nhw'n edrych ymlaen ato. Dangoswch eich bag Nadolig iddynt gan esbonio bod y gwahanol eitemau yn cynrychioli rhai o'r ffyrdd y mae pobl yn dathlu'r Nadolig. Tynnwch y Beibl neu'r llyfr stori Nadolig allan o'r bag yn olaf. Atgoffwch y plant am stori'r Nadolig neu darllenwch hi'n syth o Luc 2:1-20.

Dangoswch sleid 2: map o Fethlehem
Dwedwch wrth y plant eich bod am rannu storïau newydd o Fethlehem -storïau am blant sydd yn byw yno heddiw.
Esboniwch fod Bethlehem, lle ganed Iesu, yn ddinas yn y Llain Orllewinol (West Bank) - rhan o Diroedd y Meddiant. Pan gyrhaeddodd rhieni Iesu Fethlehem fedran nhw ddim dod o hyd i unman i aros. Pe tasech chi'n cyrraedd Bethlehem heddiw, un peth y byddech yn ei weld yw wal anferth ar ochr orllewinol y ddinas.

Dangoswch sleid 3: rhan o'r mur ger Bethlehem

Mae Israel wedi rheoli'r Llain Orllewinol oddi ar ryfel 1967. Ers hynny mae Israel wedi codi llawer o aneddiadau (settlements) i Israeliaid yn yr ardal. Mae rhai yn gymunedau bychain iawn, rhai yn drefi mawr, ond y maent i gyd yn anghyfreithlon yn ôl deddfau rhyngwladol. Mae hyn wedi gwneud llawer o Balestiniaid yn ddig iawn ac maent wedi ymateb yn chwyrn trwy ymosod ar Israeliaid.

Mae Israel yn dweud ei bod hi'n codi'r mur i amddiffyn ei dinasyddion rhag trais y Palestiniaid. Ond y broblem yw nad yw'r mur (sydd yn wal mewn mannau ac yn ffens mewn mannau eraill) yn rhedeg ar hyd y ffin rhwng Israel a'r Llain Orllewinol. Yn hytrach mae'n torri i mewn i diroedd y Palestiniaid, gan amgylchynu llawer o ffermydd a ffynhonnau – yn ogystal â llawer o aneddiadau anghyfreithlon yr Israeliaid.
Gall pobl ond croesi o un ochr o'r mur i'r llall trwy'r 'rheolfannau diogelwch' a dim ond os oes ganddynt ganiatâd. Fe all gymryd oriau i fynd trwy'r gatiau, gan nad ydynt o hyd ar agor.

Dangoswch sleid 4: Sunduz
Merch Balestinaidd, 11 mlwydd oed, sy'n byw gerllaw Bethlehem yw Sunduz Zwahara Al Hamidi. Dim ond 2 km i ffwrdd y mae ysgol Sunduz, ond oherwydd y wal mae'n cymryd dros awr iddi gyrraedd yno am ei bod hi'n gorfod cerdded i'r giât agosaf er mwyn croesi. 'Roeddwn i'n arfer mynd i'r ysgol trwy gerdded ar draws y caeau' meddai. 'Nawr rydw i'n gorfod mynd trwy'r rheolfan diogelwch sy'n cymryd llawer mwy o amser. Dwi

cymorth cristnogol

Gellir defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer amcanion addysgiadol, ond i ddosrannu'n ehangach, neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol. Ysgrifennwyd gan Pippa Durn ar gyfer Cymorth Cristnogol, Tachwedd 2008.
www.christianaid.org.uk/learn

ddim yn gallu ymweld â'm ffrindiau chwaith am mai dim ond ar adegau arbennig gallaf fynd drwy'r rheolfan.'

Dangoswch sleid 5: Rami
Mae gan Rami Jado, sy'n 15 mlwydd oed, broblem debyg i Sunduz - mae e'n mynd i'r ysgol ym Methlehem ond mae'n byw gyda'i deulu yr ochr arall i'r wal. Fe all gymryd dros awr i Rami fynd i'r ysgol. Ond mae'r wal yn achosi problemau eraill i'r teulu hefyd. Mae ganddynt anifeiliaid, ond mae'n bosibl bydd rhaid eu gwerthu am nad yw'r milfeddygon yn gallu dod i'w cartref oherwydd y wal. A phan oedd angen meddyg ar fam-gu Rami doedd yr ambiwlans ddim yn gallu cyrraedd at y tŷ.

Dangoswch sleid 6: Rami gyferbyn a'r wal wrth ei gartref.
Meddai Rami, 'Cyn i'r wal gael ei hadeiladu roedd llawer o goed yma a gallai fy ffrindiau ddod draw ond dyw hynny ddim yn bosibl bellach. Dwi eisiau byw yma wedi imi dyfu i fyny. Dyma fy nghartref i a dwi ddim eisiau ei adael. Ond dwi ddim yn gwybod a fydd pethau'n gwella.'

Dangoswch sleid 7: Karmel
Mae Karlem Sarasreh yn wyth mlwydd oed ac mae hi'n byw yn Jerwsalem, sydd 5 milltir i ffwrdd o Fethlehem. Mae'r wal yn creu problemau i Karmel a'i theulu am fod ei thad yn byw ym Methlehem ac mae'r awdurdodau yn gwrthod caniatáu i'w mam fyw yno na gadael i'w thad symud i Jerwsalem. Mae'r teulu eisiau byw gyda'i gilydd ond nid yw'n bosib. Meddai Karmel, 'Rydw i'n dod i Fethlehem bob pythefnos ar nos Iau ac yn mynd yn ôl i Jerwsalem drannoeth. Rydw i'n hoffi dod i Fethlehem am fod hynny golygu y gallaf weld fy nhad a mam-gu.'

Mae Cymorth Cristnogol, elusen yn y DU ac Iwerddon, yn gweithio mewn tua 50 gwlad ar draws y byd. Eu nod yw helpu pobl heb ystyried eu lleoliad na'u crefydd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cymryd ochr yn y gwrthdaro sydd rhwng y Palestiniaid a'r Israeliaid. Yn hytrach maent yn gweithio gyda mudiadau megis ACRI a B'Tselem – sy'n ceisio helpu teuluoedd fel rhai Sunduz, Rami a Karmel. Mae'r ddau fudiad yn gofyn i lywodraeth Israel i wneud pethau'n deg i'r teuluoedd, eu helpu i gael y caniatâd angenrheidiol er mwyn bod gyda'u teuluoedd, a hyd yn oed gofyn am i'r wal gael ei symud fel na fydd eu cartrefi wedi eu torri i ffwrdd oddi wrth eu hanifeiliaid a'u tiroedd.

Dwedwch wrth y plant bod un eitem Nadolig arall gyda chi. Tynnwch y cracer Nadolig o'r bag. Gofynnwch sawl plentyn sy'n cael y rhain adeg y Nadolig. Tynnwch y cracer a dangoswch beth sydd y tu fewn iddo. Dwedwch 'Fel arfer mae jôc, dymuniad, anrheg neu het mewn cracer. Pan fyddwch chi'n tynnu cracer ddydd Nadolig, trïwch gofio am y teuluoedd hyn a dymunwch y bydd pethau yn gwella iddyn nhw. Fe allech chi weddïo y byddan nhw'n cael 'anrheg' arbennig, - medru byw gyda'i gilydd mewn heddwch, a chael y gofal meddygol a'r pethau eraill bydd eu hangen arnynt. A phan fyddwch chi'n gwisgo'r het cofiwch am yr awdurdodau a gweddïwch y byddan nhw'n trin pawb yn deg.'

Gweddi

Dduw annwyl

Adeg y Nadolig, wrth i ni gofio am eni Iesu a threulio amser gyda'n teuluoedd, gweddïwn dros blant Bethlehem y clywsom amdanynt heddiw. Gofynnwn i'w teuluoedd gael eu trin yn deg gan yr awdurdodau a bod pobl Israel a Thiroedd y Meddiant yn dod o hyd i ffordd o gyd-fyw yn heddychlon gyda'i gilydd. Helpa ni i gofio am bobl eraill ledled y byd sydd yn byw mewn amgylchiadau anodd a dangos i ni sut y medrwn helpu eraill.
Amen

Gweithredu

Dyma rai syniadau ar gyfer disgyblion ac athrawon a ysbrydolwyd gan y gwasanaeth ac sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth:

- Ewch i www.globalgang.org i gael mwy o straeon am blant ledled y byd.
- Rhowch ddarn o bapur siâp bricsen i bob plentyn a gofyn iddynt ysgrifennu gweddi ar gyfer plant Bethlehem sy'n cael eu gwahanu gan y wal. Gwnewch arddangosfa trwy adeiladu 'wal' o'r 'briciau'.
- Defnyddiwch y straeon a geir yma fel rhan o'ch cyngerdd neu'ch drama Nadolig yn yr ysgol. Fe allech ddangos y lluniau PowerPoint ac unrhyw waith y mae'r plant wedi ei wneud ar y thema hon. Er mwyn i ni wybod beth yr ydych wedi ei wneud, anfonwch e-bost atom ar learn@christian-aid.org
- Addurnwch goeden Nadolig yr ysgol gyda dymuniadau i blant y byd. Rhowch gerdyn siâp seren i bob disgybl a gofynnwch iddynt ysgrifennu dymuniad neu weddi arno (mae labeli anrhegion yn ddelfrydol os nad ydych am lunio rhai eich hunain). Wedyn rhowch y sêr ar y goeden. Neu fe allai'r disgyblion godi arian i Cymorth Cristnogol trwy roi cyfraniad er mwyn ychwanegu seren at y goeden yn lle anfon cerdyn Nadolig at eu ffrindiau.
- Gellir gweld defnyddiau addoli Nadolig Cymorth Cristnogol ar www.christianaid.org.uk/christmas/index.aspx
- Defnyddiwch PresentAid (www.presentaid.org) i wneud eich siopa Nadolig. Gallwch ddod o hyd i ddigon o anrhegion moesol fel talu am gyflog athrawes yn yr India am fis (£45) neu brynu gwisg ysgol i blentyn (£20).

© Cymorth Cristnogol, Tachwedd 2008
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525